# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 08.04.26 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards – Cadeirydd (GE), Keith Carroll – Is Gadeirydd (KC), Geraint Micah (GM), Cath Severn (CS), David Griffiths (DG), Huw Davies (HD), Jane Jenkins (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, Megan Griffiths, Louise Hughes - Cynghorydd Sirol.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **11.03.26** yn gywir.
   **Cynnig:** CS **Eiliwyd: KC** **Arwyddwyd:** GE

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 11.03.26**

   **1. Diweddariad ar reiliau'r cae chwarae**
   CS yn cadarnhau bod yr holl waith wedi'i gwblhau a bod un tun o baent ar ôl ar gyfer unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen. Diolchodd GE i CS a KC am yr amser a'r gwaith a wnaed ar y rheiliau.

   **2. Diweddariad y Comisiwn Elusennau**
   Trafodwyd yr e-bost a'r dogfennau a dderbyniwyd gan y Comisiwn Elusennau. Dywedodd y Clerc ei bod wedi ymateb ond nad oedd unrhyw gyswllt pellach wedi bod. Dywedodd GE nad oedd yn credu bod y tir wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Dywedodd y Clerc mai'r cam nesaf fyddai cymryd cyngor cyfreithiol gyda'r bwriad o gael y tir wedi'i gofrestru yn enw'r Cyngor Cymuned a bydd GE yn gwneud ymholiadau.
   Mater i'w ail-restru ar Agenda Mis Mai.

   **3. Meinciau**
   Trafododd GE benderfyniad y Cyngor Cymuned i brynu un fainc ychwanegol allan o braesept 2026-27 ar gyfer safle ger Y Crynwyr. Byddai'r meinciau yn y safle yma wedyn i gyd wedi eu diweddaru.
   Darparodd DG ddyfynbris gan Wynnstay - a oedd yn ymddangos y byddai'r pris fesul mainc yn £385 ynghyd â TAW, gyda thâl dosbarthu o £65, ond fod y dyfynbris yma yn canolbwyntio'n bennaf ar bryniant o 5 mainc neu fwy.
   I egluro, bydd DG yn cael dyfynbris am fainc sengl, ac ar yr amod nad yw'r gost yn fwy na £385 ynghyd â TAW, cytunwyd y gellid gosod archeb.

   **4. Ymateb gan Mabon ap Gwynfor ynghylch darpariaeth 4G**
   Nodwyd yr e-bost. Er i'r mater gael ei gyfeirio at Liz Saville Roberts AS, nid oedd ateb wedi ei dderbyn hyd yma.

   **5. Ymateb gan Mabon ap Gwynfor ynghylch Clwb Pêl-droed Wrecsam**
   Nodwyd yr e-bost.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

   **1. E-bost a llythyr ynghlwm gan M Batcock ynglŷn â Rheilffordd Arfordir Cambrian**
   Y Clerc yn hysbysu ei bod eisoes wedi cysylltu â M Batcock ar y pwnc hwn. Os oedd y Cyngor Cymuned yn hapus i gefnogi, yna'r cyfan oedd ei angen oedd e-bost yn ôl ato yn cadarnhau ac yn nodi pwyntiau yr oedd gan y Cyngor broblem â nhw, h.y. diffyg digon o gerbydau tren

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i anfon llythyr cegnogaeth
**GWEITHRED:** Y Clerc i ymateb.

**2. Rhaglen Waith Ebrill 2026**
Nodwyd.

**3. Cais am safbwynt y Cyngor Cymuned ar ailagor Ysbyty Tywyn**
Trafodwyd yr e-bost.

**PENDERFYNWYD:** Cefnogaeth unfrydol i adfer darpariaeth cleifion mewnol yn Ysbyty Tywyn a chytundeb i anfon llythyr cefnogaeth.

**GWEITHRED:** Y Clerc i ymateb.

6. **Materion Cynllunio:** Dim.

7. **Adroddiad Ariannol:**

**1. Datganiad Adroddiad ar gyfer Mis Mawrth 2026 (Hyd at ddiwedd y flwyddyn 31.03.26)**

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol fel cyfrif gwir.
**Cynnnig:** HC **Eilio:** CS **Arwyddwyd:** GE

**2. Anfonebau/Taliadau** – Cyflog a chostau'r Clerc - Mis Mawrth - Aelodaeth Flynyddol Unllais Cymru, Huw Davies (eitemau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu Coeden Nadolig), GM – Taliad lwfans blynyddol yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i wneud pob taliad a llofnodi sieciau.

**3. Diweddariad yr Archwiliad**
Y Clerc yn hysbysu bod y Cyngor Cymuned yn destun archwiliad llawn ar gyfer 2025-26.

Dogfennau Incwm a Gwariant Drafft
Ffurflen Flynyddol Drafft
Ystyriwyd y ddwy ddogfen gan yr aelodau ac nid oedd angen unrhyw welliannau.

**Adroddiad Blynyddol Drafft**
Holodd HD ynglytn a'r taliad blynyddol i un aelod o'r Cyngor Cymuned - ac os oedd yn gywir. Cadarnhaodd y Clerc ei fod.
Gofynnodd HD am newid yn "Adroddiad y Cadeirydd" i gynnwys y gair ***Cymuned*** ar ol y gair ***Cyngor*** – hy – "***Cyngor Cymuned"*** - mewn perthynas â'r diffibriliwr newydd ger Gwastadgoed, Llwyngwril.

**PENDERFYNWYD:** Cytuniad unfrydol i dderbyn yr adroddiad yn amodol ar un gwelliant bach.

**GWEITHRED:** Y Clerc i wneud y gwelliant.

**4. Taliadau blynyddol yr aelodau (DG/HD/GM)**
Aeth y Clerc drwy'r opsiynau ar gyfer y rhai oedd yn absennol o'r cyfarfod diwethaf a chwblhaodd DG a HD y ffurflenni a'u rhoi i'r Clerc.
Roedd GM wedi colli ei ffurflen felly cwblhaodd un arall yn gofyn am daliad o £208.

**GWEITHRED:** Y Clerc i baratoi datganiad i'w gyflwyno i DBCC.

*RGE*

**5. Cronfa Gymorth Gwynedd NI 2026 a dau ddyfynbris**
Trafododd GE y sefyllfa o ran matiau diogelwch i'r cae chwarae a thrafodwyd y ddau ddyfynbris. Dywedodd GE ei fod wedi ymweld â chae chwarae Bryncrug, ac wedi edrych ar ansawdd y gwaith matiau a wnaed gan PlayQuest. Gan fod adroddiad ROSPA wedi tynnu sylw at broblem gyda matiau, cynigiodd GE ein bod yn gwneud cais am y grant i ddisodli'r ddwy ardal waethaf.
Cynigiodd CS y dylid prynu mainc arall ar gyfer y pentref o'r lwfans grant sy'n weddill.

**PENDERFYNWYD:** Cytuniad unfrydol i brynu'r matiau diogelwch ac un fainc.
DG i gael y dyfynbris ar gyfer y fainc a'i anfon ymlaen at y Clerc.

**GWEITHRED:** Y Clerc i gwblhau'r cais a'i gyflwyno i'w gymeradwyo.

**6. Cynllun hyfforddi ar gyfer 26/27, dyraniad hyfforddiant ar gyfer 26/27 a rhestrau hyfforddi sydd ar gael**
Y Clerc yn egluro i'r rhai oedd yn absennol yn y cyfarfod diwethaf y cynllun hyfforddi arfaethedig. Trafodwyd yr hyfforddiant ar gyfer 2026-27. Cytunwyd y byddai'r polisi hyfforddi presennol hefyd yn parhau ond yn cael ei ddiwygio i nodi bod *Sefydlu Cynghorwyr Newydd* a *Chod Ymddygiad* yn orfodol wrth ymuno â'r Cyngor Cymuned.
Cyfeiriad at y Cynllun Hyfforddi i'w gynnwys hefyd. Polisi Hyfforddi diwygiedig i'w adolygu ym Mis Mai.

**GWEITHRED:** Y Clerc i ddiweddaru'r Cynllun Hyfforddi a'r Polisi Hyfforddi a sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddaru.

**7. Cyfrifon Banc a bancio ar-lein**
Trafododd GE fancio ar-lein a chyfrif cynilo ar gyfer arian a neilltuwyd. Teimlwyd mai Barclays a HSBC oedd yr opsiynau gorau a bod ymholiadau pellach i'w gwneud.
Mater wedi'i restru ar Agenda Mis Mai i'w drafod ymhellach.

**8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
GE yn hysbysu bod Cyfarfod Ymddiriedolwyr Y Ganolfan wedi bod. Cadarnhaodd fod clo newydd wedi ei osod ar ddrws Y Ganolfan, gan fod problemau wedi codi ynglyn a pwy oedd gan hawl i'r hen goriadau i fynychu'r Ganolfan. Rhoddwyd allwedd i'r Clerc gan HD ac fe lofnodwyd amdani.

**9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

**10. Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd HD am gyflwr yr hysbysfwrdd tu allan Y Ganolfan. Dywedodd for Pwyllgor Y Ganolfan wedi trafod y mater yn ddiweddar ag eu bod wedi gofyn barn y Cyngor Cymuned ynglyn ag os oedd angen newid neu cael gwared o'r hysbysfwrdd sydd ochr allan Y Ganolfan a cadw yr hysbysfwrdd sydd tu mewn Y Ganolfan. Cododd DG fater gyda hysbysfwrdd Rhoslefain hefyd. Hysbysfyrddau i'w rhoi ar yr Agenda nesaf - Mis Mai.

Cododd HD a KC y mater o'r "heddwas" a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cwestiynodd HD ble y byddai'n cael ei osod, pa ganiatâd fyddai ei angen a gofynion yswiriant. Gan fod tâl cudd o £25 am bostio wedi dod i'r amlwg nes bod yr archeb wedi'i gosod, cafodd y mater ei ohirio i aros am drafodaeth bellach. Gofynnodd HD gwestiynau ynghylch yswiriant a chaniatâd ac ymholiadau pellach i'w gwneud gan KC (caniatâd) a'r Clerc (yswiriant). Trafodaeth pellach yn y cyfarfod nesaf - Mis Mai.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.01 yh**

*RGE*

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 13.05.26 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril</u>**

**<u>Arwyddwyd</u>** *R G Edwards*

**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………………… Dyddiad : 13.05.2026**